**Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol /**
**Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At:

Y GIG Brif Weithredwyr
Prif Swyddogion Gweithredu
Cyfarwyddwyr Therapïau

ALlau Prif Weithredwyr
Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
Penaethiaid Gwasanaethau Oedolion Cymru gyfan

11 Gorffennaf 2023

Annwyl Gyfeillion,

**Canllawiau ar gyfer Rhyddhau Cleifion Cyndyn: Rheoli Rhyddhau Cleifion Cyndyn/Trosglwyddo Gofal i Leoliad Gofal Mwy Addas**

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd galwadau digynsail ar ein sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Er mwyn inni allu parhau i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl, rhaid i bartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol reoli eu hadnoddau'n briodol a sicrhau eu bod mewn sefyllfa i ddarparu ystod lawn o wasanaethau ar gyfer y rheini sydd eu hangen. Mae trosglwyddo neu ryddhau unigolyn i leoliad mwy priodol yn rhyddhau capasiti acíwt ar gyfer cleifion y mae'n rhaid iddynt gael y lefel honno o ofal a thriniaeth, ac mae'n helpu i gynnal llif a chydbwysedd o fewn y system. Gan gydnabod hynny, rydym wedi datblygu a gweithredu canllawiau sy'n helpu unigolion i adael yr ysbyty pan na fydd angen iddynt fod yna bellach, ac i gael mynediad at wasanaethau sy'n bodloni unrhyw anghenion gofal a chymorth parhaus sydd wedi eu nodi.

Fodd bynnag, mae adegau pa fydd unigolyn, am wahanol resymau, yn gwrthod cymryd rhan yn y broses o drosglwyddo i gam nesaf ei ofal, a gallai hynny olygu ei fod yn aros am gyfnod llawer hirach yn yr ysbyty. Mae nifer yr achosion hyn yn isel, ond gallai'r ffaith bod unigolyn yn parhau i aros yn yr ysbyty yn ddiangen am gyfnod hir yn gallu achosi risgiau sylweddol i'r unigolyn hwnnw. Gallai sefyllfa felly arwain at ddirywiad yng nghyflwr y claf o ganlyniad i golli ei annibyniaeth a bod yn agored i risgiau, megis heintiau y gellid eu dal yn yr ysbyty a chwympiadau. Felly, mae'n hanfodol sicrhau bod gofal a chymorth ar gael i fodloni anghenion sydd wedi eu hasesu, a'i bod yn bosibl eu darparu yn y lleoliad mwyaf priodol yn ddi-oed.

Datblygwyd canllawiau sy'n rhoi gwybodaeth i fyrddau iechyd a phartneriaid i gefnogi rheolaeth unigolion sy'n gwrthod cymryd rhan naill ai yn y broses o gynllunio rhyddhau neu drosglwyddo i leoliad gofal mwy priodol. Gellir gweld y canllawiau yma:
https://gofalsylfaenolun.gig.cymru/offer/chwe-nod-ar-gyfer-gofal-brys-a-gofal-mewn-argyfwng/chwe-nod-ar-gyfer-gofal-brys-a-gofal-mewn-argyfwng/chwe-nod-ar-gyfer-gofal-brys-a-gofal-mewn-argyfwng/reluctant-discharge-guidance-cym-v1-0-pdf/

Mae'n hanfodol deall yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn a pham mae'n dewis gwrthod cymryd rhan. Dylid sicrhau bod yr unigolyn yn cael yr wybodaeth lawn a'i fod yn cael y cyfle i gymryd rhan yn yr holl drafodaethau sy'n ymwneud â chyfnod nesaf ei ofal, yn ogystal â'r risgiau sy'n codi os yw'n parhau i aros yn yr ysbyty. Rhagwelir y bydd gan bob bwrdd iechyd bolisïau rhyddhau manwl ar waith sydd wedi eu datblygu a'u gweithredu ar y cyd gyda'i bartneriaid yn yr awdurdod lleol. Nid yw'n fwriad bod y canllawiau hyn yn dyblygu nac yn disodli'n llawn unrhyw drefniadau polisi rhyddhau lleol. Yn lle hynny, disgwylir i drefniadau lleol fod ar waith i sicrhau bod unigolion yn cael eu rhyddhau, neu eu trosglwyddo i leoliad gofal arall, mewn modd amserol ac effeithiol.

Drwy fodloni'r gofynion hyn gellir sicrhau bod cyn lleied â phosibl o risg i annibyniaeth yn sgil aros yn rhy hir yn yr ysbyty, a bod pob partner yn gallu defnyddio ei adnoddau yn y modd mwyaf effeithiol.

Hoffwn ofyn ichi rannu'r canllawiau hyn â'r timau priodol yn eich sefydliad a chefnogi'r gwaith o'u gweithredu.

Yn gywir,

**Nick Wood**
Dirprwy Brif Weithredwr, GIG Cymru

**Albert Heaney CBE**
Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru